**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL**
**25 MEHEFIN 2018**

Cofnodion o gyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Llun, 25 Mehefin 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dave Mackie (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Sean Bibby, Geoff Collett, Ian Dunbar, Mared Eastwood, Dennis Hutchinson, Tudor Jones, Mike Reece, Paul Shotton, a David Wisinger

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr Andy Dunbobbin (ar ran Andy Williams) a Patrick Heesom (ar ran Brian Lloyd)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Bernie Attridge

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet dros Reolaeth Gorfforaethol ac Asedau, y Cynghorydd Ian Roberts, Aelod Cabinet dros Addysg, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol) a'r Prif Swyddog (Tai ac Asedau)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Cyn dechrau'r cyfarfod eglurodd y Cadeirydd fod yna gais wedi dod gan aelod o'r cyhoedd oedd yn mynychu'r cyfarfod i dynnu lluniau o'r cyfarfod ac i fod yn bresennol pan fyddai ystyriaeth i Eitem 6 - Adroddiad Blynyddol Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyf ac Arlwyo a Glanhau NEWydd Cyf.

Gofynnodd y Cadeirydd am gyngor gan Swyddogion yn ymwneud â gwahardd y wasg a'r cyhoedd cyn i'r pwyllgor ystyried yr eitem uchod. Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r penderfyniad i wahardd y wasg a'r cyhoedd yn ddibynnol ar safbwynt y mwyafrif o'r Pwyllgor.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor os oeddent yn fodlon i'r aelod o'r cyhoedd dynnu lluniau yn ystod y cyfarfod. Yn dilyn cais gan y Cynghorydd Marion Bateman rhoddwyd eglurhad ar sut y byddai'r lluniau'n cael eu defnyddio gan yr aelod o'r cyhoedd. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau bleidleisio ar y cais i dynnu lluniau yn ystod y cyfarfod a phan roddwyd hyn i bleidlais cytunwyd i hynny

## 11. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorydd Tudor Jones gysylltiad personol a sy'n rhagfarnu mewn cysylltiad ag eitem 6 yn y rhaglen – Adroddiad Blynyddol ar Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyf ac Arlwyo a Glanhau NEWydd Cyf gan mai ef yw Cadeirydd Ymddiriedolwyr Canolfan Hamdden Treffynnon a bod ganddo gysylltiad personol fel landlord Llyfrgell Aura a chaffi NEWydd.

Datganodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin gysylltiad personol mewn cysylltiad ag eitem 6 yn y rhaglen gan ei fod yn aelod o Bwyllgor Canolfan Chwaraeon Cei Connah.

Hefyd datganodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson gysylltiad personol mewn cysylltiad ag eitem 6 yn y rhaglen gan ei fod yn Ymddiriedolwr Hen Faddonau Bwcle.

Datganodd y Cynghorydd Dave Mackie gysylltiad personol gan fod aelod o'r cyhoedd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ffrind a chymydog.

**12. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mai 2018.

Cywirdeb

Cadarnhaodd y Cynghorydd Sean Bibby ei fod wedi mynychu'r cyfarfod ond dywedodd ei fod wedi ei gofnodi fel pe bai wedi cyflwyno ymddiheuriad.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**13. SYMUD O NEUADD Y SIR I UNITY HOUSE**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol) yr adroddiad i roi diweddariad ar gynnydd y gwaith o symud o Neuadd y Sir i Unity House ac ar y gwaith oedd yn mynd ymlaen gyda gwasanaethau a staff yn symud, a chynllun mewnol yr adeilad.

Dywedodd y Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol) mai symudiad rhannol yw hwn ac y byddai nifer sylweddol o weithwyr yn parhau yng Nghamau 1 a 2 Neuadd y Sir am y tymor canolig. Eglurodd fod ystod o waith wedi digwydd i sicrhau y gallai'r symud ddigwydd cyn diwedd y flwyddyn galendr a oedd yn cynnwys gwaith adeiladu yn Unity House, gwaith gyda staff gwasanaeth ac undebau i baratoi ar gyfer adleoli a gwaith i gaffael cynllunydd mewnol i gwblhau'r dasg o drefnu'r gofod yn Unity House. Adroddodd ar y prif ystyriaethau yn yr adroddiad a oedd yn darparu diweddariad llawn ar gynnydd a gwaith a gynlluniwyd.

Adroddodd y Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol) mai'r gwasanaethau a nodwyd i symud i Unity House oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cynllunio a'r Amgylchedd, Addysg a staff y Ganolfan Gyswllt. Mae'r atodiad i'r adroddiad yn nodi'r nifer o staff sydd i symud, y gofod sydd ei angen o ran desgiau a'r lleoedd parcio sydd ar gael. Y bwriad oedd mai Unity House fyddai un o'r prif swyddfeydd a byddai wedi'i gynllunio ar gyfer gwasanaethau rheng flaen nad ydynt yn derbyn ymholiadau lle gall aelodau o'r cyhoedd gerdded i mewn, ond bod staff yn cyfarfod aelodau o'r cyhoedd a phartneriaid drwy apwyntiad. Er mwyn sicrhau fod y symud yn llwyddiannus roedd cynlluniau ychwanegol yn cael eu datblygu oedd

yn cynnwys cynllun cyfathrebu mewnol ac allanol clir a chynllun teithio ar gyfer mynediad i’r safle.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r symud yn arwain at arbediad refeniw blynyddol i’r cyngor ac roedd cynlluniau i gynnwys y costau a ragwelwyd o fewn cyllidebau presennol.Siaradodd o blaid y symud rhannol ac eglurodd y byddai'r Gwasanaethau Corfforaethol, y Gwasanaethau Democrataidd, Gwasanaethau’r Aelodau a Chyllid yn parhau ar safle Neuadd y Sir yn yr Wyddgrug hyd nes y byddai penderfyniad hirdymor yn cael ei wneud. Wrth gyfeirio at adnewyddu Unity House, dywedodd fod y cydbwysedd rhwng buddsoddiad doeth a darparu amgylchedd o ansawdd wedi ei ystyried yn ofalus ac am fuddsoddiad cymharol gymedrol fod yr Awdurdod wedi moderneiddio’r adeilad ac wedi darparu gofod swyddfa sydd fel newydd ac yn addas i staff ei ddefnyddio. Hefyd fe wnaeth y Prif Weithredwr sylw ar yr effaith negyddol roedd cyflwr yr adeilad yn ei gael ar drigolion lleol a staff y Cyngor a dywedodd fod gwneud y gwelliannau wedi bod yn angenrheidiol.

Siaradodd y Cynghorydd Billy Mullin o blaid y buddsoddiad yn Unity House a gwnaeth sylw ar fanteision yr adeilad. Dywedodd fod staff yn frwd am y symud a bod y gwelliannau wedi codi morâl y staff.

Awgrymodd y Cynghorydd David Wisinger fod ymweliad safle yn cael ei drefnu ar gyfer y Pwyllgor i Unity House. Mynegodd bryderon yn ymwneud â threfniadau parcio ar gyfer staff ac ymwelwyr. Eglurodd y Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol) fod ystyriaeth ofalus wedi ei rhoi i nifer y staff mewn cymhariaeth â’r ddarpariaeth lleoedd parcio a dywedodd fod yna nifer ddigonol o leoedd parcio ar gyfer y nifer o staff sy'n symud i Unity House. Dywedodd fod gweithio hyblyg, oriau hyblyg a gweithio rhan amser yn golygu na fyddai’r holl staff yn gweithio yn yr adeilad ar yr un pryd.

Mynegodd y Cynghorydd Patrick Heesom bryderon yn ymwneud â’r symud i Unity House. Dywedodd y gallai rhai o’r gwasanaethau presennol a gaiff eu darparu gan yr awdurdod newid o ganlyniad i’r ad-drefnu llywodraeth leol a ragwelir yng Nghymru ac y dylid ystyried hyn. Mynegodd bryderon pellach y gall rhai o ddefnyddwyr y gwasanaeth ei chael yn anodd teithio i Unity House a siaradodd am yr angen i sicrhau fod y cyfle yn parhau i’r cyhoedd gael cyswllt 'wyneb yn wyneb' gyda swyddogion yn ôl yr angen; a nododd faterion cynllunio fel enghraifft.

Ymatebodd y Prif Weithredwr i’r sylwadau ac eglurodd fod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth o fewn Addysg a'r Gwasanaethau Ieuenctid a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn gwasanaethau teithiol. Dywedodd fod Ewlo a’r Wyddgrug wedi eu cysylltu’n dda drwy ffyrdd a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a dywedodd y byddai’r gwasanaethau a gaiff eu darparu ym Mhlas Llwynegrin a Theatr Clwyd yn aros fel maent ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Fod y cynnydd a wnaed i ad-leoli nifer o wasanaethau a staff i Unity House yn cael ei nodi; a

(b) Bod y bwriad i symud i Unity House yn cael ei gefnogi.

**14.** **<u>RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL</u>**

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol er mwyn ei hystyried. Tynnodd sylw at yr eitemau a restrwyd ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor i'w gynnal ar 17 Medi, a gofynnodd i Aelodau anfon unrhyw awgrymiadau am eitemau yr oeddent yn dymuno eu hychwanegu at y Rhaglen ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd Tudor Jones am ddiweddariad ar y trosglwyddiadau ased "llai" dywedodd y Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol) y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor a fyddai'n cael ei gynnal ar 17 Medi, i ddarparu diweddariad ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y cafodd ei chyflwyno, yn cael ei chymeradwyo; a

(b) Bod yr Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, os oes angen.

**15.** **<u>DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD</u>**

Dywedodd y Cadeirydd fod Swyddogion wedi argymell fod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r eitem ganlynol gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth sensitif yn fasnachol sy'n perthyn i drydydd parti a bod budd y cyhoedd o beidio â datgelu'r wybodaeth yn fwy na budd y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth.

Dywedodd y Cadeirydd fod y penderfyniad i wahardd y wasg a'r cyhoedd ar gyfer yr eitem ganlynol i'w wneud gan y Pwyllgor a gofynnodd i Aelodau bleidleisio ar y cynnig. Pan roddwyd y mater i bleidlais penderfynwyd gwahardd y wasg a'r cyhoedd am weddill y cyfarfod.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

**16.** **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL LLYFRGELLOEDD A HAMDDEN AURA CYF AC ARLWYO A GLANHAU NEWYDD CYF</u>**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol) yr adroddiad i dderbyn yr adroddiadau diwedd blwyddyn drafft (31 Mawrth 2018) yn ffurfiol a ddarparwyd gan Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyf ac Arlwyo a Glanhau NEWydd Cyf i'w Byrddau Partneriaeth priodol gyda'r Cyngor ym Mai 2018. Dywedodd fod y ddau adroddiad yn dangos cynnydd da.

Rhoddodd y Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol) wybodaeth gefndir gan adrodd ar y prif ystyriaethau fel y nodwyd yn yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth cododd Aelodau gwestiynau'n ymwneud â darpariaeth barhaus caeau chwaraeon pob tywydd yn ogystal â'r gwaith o'u cynnal a'u cadw, cysondeb darpariaeth gwasanaethau ieuenctid ar draws y Sir a Chanolfan Chwaraeon Cei Connah.

Llongyfarchwyd y Prif Swyddog (Rhaglenni Strategol) gan yr Aelodau ar ei swydd newydd gyda Chyngor Bwrdeistref Wrecsam a diolchodd yr Aelodau iddo am ei waith caled a'i lwyddiannau yn ystod ei gyfnod gyda'r Awdurdod.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Fod cynnydd Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyf ac Arlwyo a Glanhau NEWydd Cyf yn ystod 2017/18 yn cael ei nodi: a

(b) Bod cynnydd Hamdden a Llyfrgelloedd Aura Cyf ac Arlwyo a Glanhau NEWydd Cyf yn ystod eu blwyddyn gyntaf o weithredu yn cael ei groesawu.

## 17. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd yna un aelod o'r wasg ac un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 3.25 pm)

..................................................

**Y Cadeirydd**